

# **Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

DestinationSkin, Stryd y  
Frenhines, Caerdydd

Dyddiad arolygu: 29 Gorffennaf  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	15
4.	Beth nesaf? .....	17
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol .....	18
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	20

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o DestinationSkin, Stryd y Frenhines, Caerdydd ar 29 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod DestinationSkin yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol a rhoi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd yn fodern, yn lân ac yn eang. Gwelsom hefyd fod trefniadau rheoli da wedi'u hategu gan bolisiâu a threfniadau llywodraethu cadarn er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Rydym wedi gwneud un argymhelliad ar gyfer gwella er mwyn i'r gwasanaeth gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol yn llawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn fodern, yn lân ac yn eang
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd prosesau ar waith i barchu preifatrwydd ac urddas cleifion
- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd trefniadau ar gyfer hyfforddiant peiriannau IPL/ laser, gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw ar waith ac yn gyfredol
- Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda rhwng y rheolwr cofrestredig a thîm rheoli'r brif swyddfa (darparwr cofrestredig) a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Llunio Polisi Rheoli Risgiau ehangach er mwyn ategu asesiadau risg presennol.
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddara ar lefel briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae DestinationSkin wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Goleuni Pwls Dwys (IPL)<sup>1</sup> yn 111, Stryd y Frenhines, Caerdydd, CF10 2BH.

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru ag AGIC yn ei leoliad blaenorol yn House of Fraser, Caerdydd, ond cafodd ei ailgofrestru ar 30 Ebrill 2019 i ddarparu gwasanaethau yn ei leoliad sydd newydd ei gofrestru ar Stryd y Frenhines, Caerdydd.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi saith aelod o staff, sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig, a chwe defnyddiwr laser/IPL<sup>2</sup> awdurdodedig.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion dros 18 oed, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwaredu blew
- Pigmentiad
- Gwaredu / lleihau gwythiennau
- Adfywio'r croen
- Triniaeth acne

---

<sup>1</sup> Technoleg ffynhonnell goleuni sbectrwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

<sup>2</sup> Cyfeirir at aelodau o'r staff sy'n perfformio triniaethau neu'n gweithredu'r peiriant laser fel defnyddiwr awdurdodedig.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y gwasanaeth yn darparu amgylchedd a oedd yn fodern, yn eang ac yn lân yr olwg i gleifion. Yn ogystal, roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i barchu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion hefyd yn cael gwybodaeth fanwl mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur.

Ar y cyfan, er na chawsom lawer o adborth gan gleifion, roedd yr adborth i gyd yn gadarnhaol iawn, a nododd y cleifion fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog.

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod y clinig yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac yn holi a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol. Gwelsom fod y cleifion wedi llofnodi'r cofnodion hanes meddygol a bod y gweithredwr a oedd yn darparu'r driniaeth wedi'u cydlofnodi. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff y triniaethau priodol eu darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth wedi nodi eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

## Urddas a pharch

Er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion, dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafelloedd triniaeth.



Er mwyn sicrhau urddas y cleifion, cyn y driniaeth ac ar ei hôl, dywedwyd wrthym y rhoddir tywel i'r cleifion er mwyn iddynt newid, yn breifat os bydd angen, a bod ystafelloedd yn cael eu cloi drwy gydol pob cwrs o driniaeth. Gwelsom fod cloeon bysellfwrdd wedi'u gosod ar bob ystafell driniaeth a bod arwyddion 'cnocio ac aros' wedi'u harddangos er mwyn gwarchod urddas y cleifion ymhellach.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gallai claf ddod â hebryngwr ar gyfer rhan o'r driniaeth neu'r driniaeth i gyd. Os byddai'n well gan y claf fod y hebryngwr yn aros yn yr ystafell drwy gydol y driniaeth, cadarnhaodd y rheolwr wrthym y byddai sbectol diogelwch ar gael.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin â pharch gan y staff.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys y gwahanol driniaethau a oedd ar gael, y costau, y risgiau a'r manteision.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth, a hynny am fod y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau. Mae hyn yn cynnwys Canllaw i Gleifion, sydd ar gael i'r cleifion fynd adref gyda nhw a'i darllen yn eu hamser eu hunain. I ategu hyn, ceir tudalen we fanwl sy'n amlinellu'r triniaethau a gynigir.

Yn ogystal, mae pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael cydsyniad ysgrifenedig cyn y driniaeth gychwynnol ac yn ystod unrhyw apwyntiad dilynol. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael cyngor ôl-ofal ar lafar a phecyn ôl-ofal i fynd adref gyda nhw yn dilyn y driniaeth.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd Canllaw i Gleifion ar gael i'r cleifion fynd adref gyda nhw i'w ddarllen yn eu hamser eu hunain cyn ymrwymo i unrhyw gwrs o driniaeth. Roedd y canllaw, a oedd yn cynnwys y Datganiad o Ddiben, yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gwasanaethau a oedd ar gael.

At hynny, mae gan y gwasanaeth wefan gynhwysfawr sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ac amrywiaeth o wybodaeth ategol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn gwrandio arnynt a'u bod yn gallu siarad yn eu dewis iaith bob amser.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob un o'r cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Caiff hanes meddygol y cleifion ei nodi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau addasrwydd eu dewis o driniaeth. Gwelsom hefyd fod nifer o bosteri'n cael eu harddangos yn ardal y staff, megis poster i atgoffa'r staff pryd y dylid rhoi triniaeth ar gyfer croen sydd wedi cael lliw haul a phryd na ddylid gwneud hynny. Mae hyn yn helpu i gefnogi'r staff i roi cyngor a thriniaeth briodol.

Gwnaethom adolygu sampl o nodiadau cleifion a gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion ardderchog. Roedd nodiadau copi caled yn cael eu cadw'n gyson mewn ffeiliau cleifion unigol manwl ac roedd ffeiliau electronig yn cael eu storio ar gofrestr triniaethau briodol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau cyn y driniaeth. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod angen cynnal profion clytiau ar bob claf fel rhan o amodau eu triniaeth.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr gwaelod gyda mynediad i bobl anabl i'r dderbynfa, yr ardal aros, a'r ystafelloedd triniaeth. Ceir toiled ar y llawr gwaelod at ddefnydd y cleifion hefyd.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion**

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod holiaduron ar gyfer y clinig cyfan yn cael eu cynnal bob chwe mis a gwelsom fod y canlyniadau cyfredol yn sgil yr adborth hwn yn cael eu dadansoddi a'u cynnwys yn y Canllaw i Gleifion.

Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn gallu rhoi adborth drwy ddulliau eraill, gan gynnwys ar lafar a thrwy lenwi ffurflen sylwadau. Gwelsom fod y dull hwn o adborth yn cael ei gofnodi ar ffeil y claf a'r system TG gorfforaethol, sy'n hygyrch i'r darparwr cofrestredig. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn myfyrio ar yr adborth ac yn mynd i'r afael ag ef yn briodol.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom fod nodiadau'r cleifion wedi'u cwblhau i safon uchel.

Gwelsom fod yr holl hyfforddiant peiriannau laser/IPL, gwaith gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw yn gyfredol er mwyn sicrhau y caiff y peiriannau eu defnyddio'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y dylid llunio polisi rheoli risgiau ehangach i ategu'r asesiadau risg presennol. Rydym hefyd yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn cael lefel briodol o hyfforddiant gloawi ar ddiogelu.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Er budd diogelwch tân, mae gan y gwasanaeth ddau aelod o'r staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant marsial tân ffurfiol. Roedd labeli gwasanaethu cyfredol ar y diffoddwyr tân ac roedd arwyddion clir i'r allanfeydd tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod perchnogion yr adeilad yn cynnal ymarferion tân bob chwe mis.

Gwelsom dystiolaeth hefyd i ddangos bod asesiad tân cynhwysfawr wedi cael ei gwblhau. Nodwyd gennym fod gan y gwasanaeth asesiad risg amgylcheddol ar waith.

Roedd nifer o becynnau cymorth cyntaf ar gael, gan gynnwys pecyn llosgiadau. Roedd dau aelod o'r staff a oedd yn gymwys i roi cymorth cyntaf a gwelsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn daclus, yn drefnus ac yn lân iawn yr olwg. Roedd gan y gwasanaeth bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a oedd ar gael i ni

ei weld. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gweithredwyr unigol yn cynnal archwiliadau dyddiol dan oruchwyliaeth y rheolwr cofrestredig.

Gwelsom fod cyfarwyddyd a chyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, yn ogystal â'r toiledau. Gwelsom fod biniau gwastraff clinigol priodol ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod contract ar waith ar gyfer gwastraff cyffredinol a chlinigol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y gwasanaeth yn lân iawn, yn eu barn nhw.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i oedolion dros 18 oed yn unig. Gwelsom dystiolaeth o bolisi sy'n gwahardd rhoi triniaeth neu wasanaethau i unigolion o dan 18 oed yn benodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

At hynny, gwelsom dystiolaeth o bolisi Gofal Plant yn y Clinig sy'n gwahardd unigolion o dan 18 oed rhag bod yng ngofal y staff neu fod yn bresennol yn yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd polisi diogelu oedolion ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn petai unrhyw bryderon am ddiogelu unigolion. Roedd hyn yn cynnwys pwyntiau cyswllt awdurdodau lleol, rolau a chyfrifoldebau'r staff unigol, a chyfarwyddyd ynglŷn ag arwyddion cam-drin.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod aelodau newydd o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu fel rhan o'u proses sefydlu gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai pob aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant gloywi ar wahân er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu, yn ogystal â sicrhau bod y staff yn hyderus i drafod materion sy'n ymwneud â diogelu, pe baent yn codi.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant ddiogelu ar lefel briodol a chyflwyno tystiolaeth o hyn i AGIC.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y tri pheiriant laser/IPL yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd y tystysgrifau calibradu'n gyfredol. At hynny, gwelsom brotocolau triniaeth priodol a oruchwyliwyd gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom hefyd fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a rheolau lleol<sup>3</sup> a oedd yn disgrifio sut i weithredu'r peiriannau'n ddiogel. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi arolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd pob gweithredwr wedi'u llofnodi. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod pob gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>4</sup> a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser / IPL.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn llygaid ar gael i gleifion, gweithredwyr a hebryngwyr. Roedd yn amlwg bod y sbectolau amddiffyn llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y gwasanaeth fod y sbectolau yn cael eu harchwilio i weld a oeddent wedi'u difrodi. Gwelsom hefyd fod gorchuddion llygaid yn cael eu defnyddio sy'n cynnig dull amddiffyn ychwanegol i'r cleifion sy'n cael triniaeth laser i'r wyneb.

Roedd cleon bysellfwrdd wedi'u gosod ar ddrws pob ystafell driniaeth ac roedd arwyddion 'cnocio ac aros' er mwyn atal mynediad heb awdurdod tra bydd y peiriannau'n cael eu defnyddio. Gwnaethom gadarnhau bod allweddi ar gyfer y

---

<sup>3</sup> Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/474136/Laser\\_guidance\\_Oct\\_2015.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf)

<sup>4</sup>Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac yn effeithiol.

peirannau laser/IPL yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ardal staff pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom dystiolaeth ddigonol i ddangos bod y gwasanaeth yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau triniaeth bob tri mis ac archwiliadau o gofnodion y cleifion bob wythnos. Mae hyn yn helpu i sicrhau addasrwydd triniaethau a chysondeb o ran gwybodaeth y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y gwasanaeth yn ceisio barn y cleifion yn rheolaidd fel modd o wella'r gwasanaeth, gan fod y gwasanaeth yn casglu adborth gan gleifion ar ôl pob triniaeth a chesglir adborth ar draws y clinig bob 6 mis.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cofnodion rhagorol yn cael eu cadw. Cwblhawyd y cofnodion mewn modd clir, cyson a chynhwysfawr, sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol wrth gynllunio a chofnodi triniaeth cleifion.

Nodwyd bod copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Gwelsom hefyd fod cofrestr electronig gyfredol o driniaethau cleifion yn cael ei chadw. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i greu adroddiadau at ddibenion monitro ac adrodd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda rhwng y rheolwr cofrestredig a thîm rheoli'r brif swyddfa ('darparwr cofrestredig') a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad. Ategwyd hyn gan bolisiâu a threfniadau llywodraethu cadarn a strwythur rheoli clir.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae DestinationSkin Cardiff yn rhan o grŵp o glinigau esthetig DestinationSkin. Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a gwelsom dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda system rheoli fersiynau a dyddiadau adolygu priodol. Roedd y staff wedi llofnodi'r holl bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn cadarnhau eu bod yn ymwybodol ohonynt a'u bod yn eu deall.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth gadarn o'r trefniadau llywodraethu ac roedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd briffio dyddiol, cyfarfodydd misol a chyfarfodydd unigol ag aelodau o'r staff. Mae hyn yn helpu i sicrhau llinellau atebolrwydd clir a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod y gwasanaeth hefyd yn arddangos tystysgrif cofrestru AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol yn ardal gyhoeddus y dderbynfa.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith a bod hyn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gan y gwasanaeth ddull priodol ar waith i gofnodi cwynion ffurfiol (yn ysgrifenedig ac ar lafar) a chwynion anffurfiol. Roedd adborth o'r fath yn cael ei gofnodi ar ffeil y claf ac ar system TG y darparwr cofrestredig, sy'n helpu i sicrhau bod adborth yn cael ei adlewyrchu ac yr ymatebir iddo'n briodol.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod pob gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser / IPL.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob aelod newydd o'r staff yn mynychu hyfforddiant sefydlu a gaiff ei gynnal gan y darparwr cofrestredig. Dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant hwn wedyn yn ffurfio rhan o Gynllun Datblygu Ymarferwyr, a gaiff ei oruchwylio gan y rheolwr cofrestredig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn cael cyfarfodydd unigol rheolaidd sy'n caniatáu ar gyfer nodi anghenion hyfforddiant a'u trafod drwy gydol y flwyddyn. Caiff bob aelod o'r staff arfarniad blynyddol sy'n galluogi'r rheolwr cofrestredig i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y gweithredwyr laser awdurdodedig.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai'r tîm Adnoddau Dynol, sydd wedi'i lleoli ym mhrif swyddfa'r grŵp, sy'n arwain y broses gyflogi fel rheol. Disgrifiwyd proses briodol o ran recriwtio a sefydlu, a oedd yn cynnwys geirdaon ysgrifenedig, gwiriadau adnabod a chyfnod prawf. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflogi unigolion addas gyda chymysgedd priodol o sgiliau a gwybodaeth.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff er mwyn amddiffyn a diogelu'r cleifion. Fodd bynnag, oherwydd bod darparwr newydd wedi cymryd yr awenau yn ystod y misoedd diweddar, roedd y gwasanaeth yn aros am dystysgrifau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth a roddodd sicrwydd i ni fod y rhain wedi'u harchebu ar gyfer pob aelod o'r staff. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd copïau o'r tystysgrifau DBS diweddaraf wedi cael eu cyflwyno i AGIC.



## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: DestinationSkin (Caerdydd)**

**Dyddiad arolygu: 29 Gorffennaf 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/S afon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant ddiogelu ar lefel briodol a chyflwyno tystiolaeth o hyn i AGIC.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant Diogelu Gorfodol Lefel 2 ar-lein a threfnwyd bod Rheolwr y Clinig yn mynd ar gwrs Diogelu Lefel 4 ym mis Hydref. Rhoddir y tystysgrifau i AGIC ar ôl eu cwblhau.	Cynghorydd AD/ Rheolwr Cofrestredig y Clinig/ Unigolyn Cyfrifol	2 fis

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Catrin Jones**

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig y Clinig**

**Dyddiad: 09.09.19**